OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 376

# Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007

## RHAN 13

Datgymhwyso a Dirymu

### Datgymhwyso'r darpariaethau sy'n bodoli eisoes

**70.**—(1) Ni fydd Gorchymyn Mewnforio Embryonau, Ofa a Semen 1980(**1**) yn gymwys i gynhyrchion y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt, ac eithrio embryonau, ofau a semen rhywogaeth y ddafad a'r afr.

(2) Ni fydd Gorchymyn Mewnforio Cynhyrchion Anifeiliaid a Chynhyrchion Dofednod 1980(**2**) yn gymwys i gynhyrchion y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt, ac eithrio'r cynhyrchion y cyfeirir atynt yn rheoliad 4(7) o'r Rheoliadau hyn.

(3) Ni fydd y canlynol yn gymwys i gynhyrchion y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt—

(a) Rheoliadau Mewnforio Semen Gwartheg 1984(**3**); a

(b) Gorchymyn Mewnforio Protein Anifeiliaid wedi'i Brosesu 1981(**4**).

### Dirymu

**71.** Dirymir Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005(**5**) drwy hyn.

(**1**) O.S. 1980/12, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1984/1326, 1990/2371, a 1994/2920.
(**2**) O.S. 1980/14, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1982/948, 1990/2371, 1994/2920 a 1994/3142, ac fel y'i darllenir gydag O.S. 1997/322.
(**3**) O.S. 1984/1325, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1993/1966.
(**4**) O.S. 1981/677, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1982/459 ac O.S. 1990/2371.
(**5**) O.S. 2005/666 (Cy.56), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/3395 (Cy. 271) ac O.S. 2006/767 (Cy.74).